WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | 647A2012 |
| Dyddiad | 29 Ionawr 2013 |
| Tudalennau | 1 o 6 |

Annwyl Iwan,

# Llythyr Asesiad Gwella 2

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 21 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella
- fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

# Cynllunio ar gyfer gwella

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Er bod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, adroddais yn fy llythyr ym mis Medi fod y Cyngor, ar ôl etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2012, wedi penderfynu adolygu ei Amcanion Gwella er mwyn penderfynu a allai eu cyflawni i gyd erbyn 2016-17 ac archwilio cyfres o senarios ariannu i benderfynu ar eu blaenoriaeth gymharol. Roedd y senarios hynny'n amrywio o fân newidiadau i'r cyllidebau presennol i symud adnoddau oddi wrth wasanaethau er mwyn helpu i gyflawni'r Amcanion Gwella. Cyhoeddodd y Cyngor ddrafft o'r Cynllun Gwella ym mis Mawrth 2012 ac, ym mis Hydref, mabwysiadodd y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2012-17, ar ôl ymgysylltu a chynghorwyr.

Canfu fy ngwaith archwilio ac asesu fod *'Cynllun Corfforaethol 2012-17'* (y Cynllun) y Cyngor yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cyngor wedi pennu sail resymegol glir ar gyfer dethol y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella, ar sail ei berfformiad ar hyn o bryd, barn rhanddeiliaid a phartneriaid a'r ymgynghori diweddar â dinasyddion. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r Cynllun, ac wedi rhoi crynodebau ar ei wefan. Mae'r cynllun ar gael mewn fformatau amgen ac mewn ieithoedd eraill ar gais.

Mae'r Cynllun yn cynnwys wyth o Amcanion Gwella sy'n ymwneud ag: addysg a sgiliau; teimlo'n ddiogel; tai; iechyd ac annibyniaeth, economi sy'n ffynnu; amgylchedd cynaliadwy; treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg; ac mae'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth i bobl, yn eu cynnwys ac yn gwrando arnynt.

Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir beth yw nod yr Amcanion Gwella ac wedi cynnwys rhywfaint o fanylion cyffredinol am yr adnoddau sydd ar gael, yn refeniw ac yn gyfalaf, i gynorthwyo i'w cyflawni. Nid oes cysylltiad clir eto â Chynllun Ariannol Tymor Canol, ond bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â hyn yn gynnar yn 2013.

Mae'r Cyngor wedi diffinio dulliau priodol o fesur llwyddiant, wedi gosod targedau addas ac wedi sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer y rhan fwyaf o'i wyth Amcan Gwella. Mewn ambell achos, mae perthynas glir ac amlwg rhwng y dulliau mesur a ddewiswyd a'r Amcan Gwella. Er enghraifft, mae'r dull mesur llwyddiant ar gyfer yr Amcan Gwella 'bod pobl Conwy yn byw mewn tai diogel a phriodol', yn canolbwyntio ar atal digartrefedd a chynyddu nifer y tai fforddiadwy newydd a gaiff eu hadeiladu i bobl leol. Felly, mae'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i wella yn amlwg.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y Ddeddf) yn pennu gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd

y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cyfatebiaeth gref rhwng y gofyniad i gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Degwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am waith cydraddoldeb y Cyngor, yn enwedig o ran ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol, ond nid yw'n dweud yn benodol sut mae'r Cyngor wedi cyflawni gofynion y Ddeddf wrth bennu ei Amcanion Gwella.

# Adrodd ar welliant

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd bod yr Adroddiad Perfformiad (yr Adroddiad):

- ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor ac oherwydd y darperir fersiynau mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gais;
- yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ar sail 134 o ddangosyddion ac yn dangos yn glir sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurir gan yr holl ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol;
- wedi'i gyhoeddi cyn y dyddiad terfyn statudol, 31 Hydref 2012;
- yn cynnig ffocws clir sydd wedi'i strwythuro'n dda ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran cyflawni ei Amcanion Gwella; a
- yn gryno ac wedi'i ysgrifennu'n dda, ac, ar gyfer y rhan fwyaf o'r Amcanion Gwella a bennwyd ar gyfer 2011-12, mae'n adrodd yn glir am berfformiad gan seilio hynny ar ganlyniadau, ac mae'n cysylltu'r Amcanion Gwella â thablau dangosyddion perfformiad statudol ac allweddol.

Yn yr Adroddiad ceir esboniad o sut mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano'. Fel y Cynllun, mae strwythur yr Adroddiad yn seiliedig ar yr Amcanion Gwella.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Cyngor yn 2011-12 o'i gymharu â'i berfformiad yn y flwyddyn flaenorol, ac yn esbonio'n gryno'r prif lwyddiannau a methiannau wrth gyflawni rhai o'r prosiectau allweddol a aseiniwyd i Amcanion Gwella'r Cyngor a blaenoriaethau strategol eraill, fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2008-12. Cysylltwyd y cynnydd â'r canlyniadau i ddinasyddion y mae'r Amcanion Gwella yn eu cefnogi, fel y nodir yng nghynllun cymunedol integredig 'Un Conwy 2012-25.' Mae prif gorff yr adroddiad yn cynnwys rhestr lawn o'r mesurau sy'n gysylltiedig â phob un o'r wyth Amcan Gwella a'r blaenoriaethau strategol. Lle na chyflawnwyd yr allbwn neu'r canlyniad,

mae'r Adroddiad yn cynnwys sylwebaeth esboniadol gryno ac amlinelliad o'r hyn y bwriedir ei wneud i wella perfformiad. Ceir crynodeb byr hefyd o'm Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2012.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb o waith partneriaeth y Cyngor ym mhob un o'r prif feysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, dadansoddiad disgrifiadol o'r cynnydd a geir yn bennaf, megis yn yr adran am Wasanaethau Priffyrdd a Seilwaith, ac nid yw bob tro'n glir sut mae'r trigolion wedi elwa'n uniongyrchol.Nid yw'r Adroddiad yn cyfeirio at y gorwariant ym 2011-12 ar gyfer Cyllideb Cludiant Cartref Ysgol, sydd wedi body n bwnc mewn adroddiad ar y cyd ddiweddar gan wasanaeth archwilio mewnol Conwy a Sir Dinbych.

Yn adran olaf yr Adroddiad asesir y cynnydd o ran pob un o'r 41 dangosydd perfformiad cenedlaethol a hynny mewn ffordd glir a chynhwysfawr. Ceir Crynodeb o'r Perfformiad Corfforaethol gan ddefnyddio strwythur sy'n seiliedig ar yr wyth Amcan Gwella. Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am berfformiad yn y flwyddyn flaenorol hefyd (lle bo'r rheini ar gael) ar gyfer pob un o'r dangosyddion, ynghyd â dadansoddiad o'r tueddiadau, cymhariaeth rhwng perfformiad 2011-12 a chyfartaledd Cymru, a sgôr ar raddfa Cymru gyfan. Rhoddir symbol coch, oren neu wyrdd ar gyfer pob dangosydd a mesur perfformiad i ddangos i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni'r allbwn neu'r canlyniad a fwriadwyd yn ystod y flwyddyn, yn ôl gwerthusiad y Cyngor.

Mae pob Amcan Gwella yn cael ei gefnogi gan gyfres o weithgareddau a mesurau sy'n cael eu rheoli a'u darparu gan y gwasanaeth priodol, a'u monitro trwy gydol y flwyddyn fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Gwelsom fod yr Adroddiad Perfformiad yn cael ei gyflwyno yn glir ac yn hawdd i'w darllen ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella. Mae'r Adroddiad yn gyffredinol yn gytbwys, gan roi sylwadau ar feysydd lle mae cynnydd mewn cyflawni camau gweithredu wedi bod yn araf neu berfformiad wedi gostwng, yn ogystal â'r agweddau mwy llwyddiannus. Er enghraifft, y dangosydd ar gyfer tai fforddiadwy, mae'r Cyngor yn nodi bod perfformiad yn cwympo o dan darged ac yn amlinellu pam y mae hyn yn digwydd.

### Mae'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn gymorth i sicrhau hunanwerthusiad dibynadwy ond nid yw rhai agweddau ar drefniadau gwerthuso'r Cyngor yn ddigon trwyadl

Casgliad fy Adroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2012) oedd bod y Cyngor wedi mabwysiadu fframwaith a oedd yn sefydlu dull cyson o reoli perfformiad drwy'r sefydliad, cyfan a bod aelodau etholedig yn cynnig arweiniad cadarn ar gyfer darparu gwasanaethau a chraffu'n effeithiol er mwyn herio polisïau a pherfformiad. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Mae ansawdd yr wybodaeth am berfformiad a roddir i'r pwyllgorau craffu a'r adolygiadau o wasanaethau a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn gyson dda. Gwelsom fod gan y Cyngor dîm polisi canolog cryf sy'n goruchwylio, yn cydlynu ac yn rheoli perfformiad yn frwd. Fel rheol, mae staff y gwasanaethau yn cydnabod eu bod yn gyfrifol am eu

perfformiad ac yn deall y berthynas rhwng eu gwaith a chyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a'i flaenoriaethau corfforaethol.

Ym mis Mehefin 2012, adroddwyd ar ganlyniadau ein harchwiliad o gywirdeb sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor. Er bod ein sampl eleni'n llai nag yr oedd yn y gorffennol, roedd y canlyniadau'n foddhaol ac ni wnaethom amodi unrhyw un o ddangosyddion perfformiad y Cyngor.

Serch hynny, ceir enghreifftiau o broses hunanwerthuso mewn gwasanaethau unigol nad yw'n ddigon trwyadl. Casgliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) oedd bod adroddiad y Cyfarwyddwr[1], yn dangos bod enghreifftiau lle nad yw systemau perfformiad y Cyngor wedi canfod gwendidau mewn systemau monitro. Yn ystod arolygiad 2011, er enghraifft, nid oedd y gwasanaeth seibiannau preswyl byr wedi paratoi'r adroddiad adolygu gofal ers dwy flynedd. Mae adroddiad o'r fath yn elfen allweddol yn y prosesau sicrwydd ansawdd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae'r Gwasanaethau Plant wedi cynnal archwiliadau ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'w canfyddiadau. Gwelir enghreifftiau o hyn yn y ffordd y rhoddwyd argymhellion ar waith yn ddi-oed ar ôl cynnal yr arolygiad maethu'n ymwneud â threfniadau lleoli a'r broses gwyno.

---

[1] Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor a gynhelir gan AGGCC sy'n cynnwys asesu hunanwerthusiad Cyngor o'i berfformiad (a elwir yn aml yn 'Adroddiad y Cyfarwyddwr'). Mae AGGCC yn gwerthuso perfformiad yn gyffredinol ac yn nodi meysydd lle y gwelwyd cynnydd a mesydd y mae angen eu datblygu.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Rydym yn cyflwyno rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol yn ôl yr angen.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Gwella cysondeb o ran ansawdd hunanwerthuso o fewn gwasanaethau unigol |
| C2 | Cynnwys rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad am yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ar yr Amcanion Gwella. |

Yn gywir

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau